# Cross Party Group for North Wales
# Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru

# Nodyn o gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru
# Dydd Gwener 3 Gorffennaf 2020

## Yn bresennol

Mark Isherwood AS (yn y Gadair), Darren Millar AS, Rhun ap Iorwerth MS (rhan), Janet Finch Saunders AS (rhan), Ken Skates AS (rhan), Francess Ifan (Swyddfa Rhun ap Iorwerth AS), Marc Jones (swyddfa Llyr Gryffudd)
Rob Roberts AS, Mark Tami AS, y Cynghorydd Sam Rowlands (rhan).
Stephen Jones (CLlIC) ysgrifennydd a chynrychiolydd y noddwr, yn bresennol.
<u>Siaradwyr:</u>
Arfon Jones, CHTh; Carl Foulkes, prif gwnstabl; Stephen Hughes, prif swyddog gweithredol swyddfa'r CHTh.
Alwen Williams (cyfarwyddwr rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru), Ashley Rogers (cyfarwyddwr masnachol, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) Michael Bewick, (Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y Gogledd), Jane Richardson (cyfarwyddwr strategol, Cyngor Conwy a phrif swyddog twristiaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru), Jason Thomas (cyfarwyddwr, Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth LlC)

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd gyfarfod ar-lein cyntaf y Grŵp.

## 2. Blaenoriaethau plismona

**a) <u>Cynllun ymateb COVID-19</u>**

Mae'r ddolen i ddogfennau ymateb y CHTh i COVID-19 ynghlwm isod: - https://t.co/hp7rC7Y7PT?amp=1

<u>Cafwyd cyflwyniad byr gan y CHTh, Arfon Jones:</u>

Paratowyd y cynllun ymateb ar adeg nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, nid yn unig i'r rheini yn y gwasanaeth plismona, ond i bawb. Mae dechrau pandemig COVID-19 wedi tarfu ar bob agwedd ar fywyd normal ym mron pob gwlad yn y byd, gan gynnwys Cymru. Hoffwn dalu teyrnged i holl swyddogion, staff, swyddogion arbennig a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi ymateb mor gadarnhaol i'r amgylchiadau rhyfeddol hyn.

Un o ganlyniadau niferus y pandemig yw gohirio etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu 2020 (CHTh) hyd at 6 Mai 2021.

Rwyf eisoes wedi penderfynu y bydd y blaenoriaethau yn fy nghynllun Heddlu a Throseddu yn parhau tan fis Mai 2021. Nid nawr yw'r amser i bennu blaenoriaethau newydd i'r prif

gwnstabl a Heddlu Gogledd Cymru sydd, yn hollol gywir, angen canolbwyntio eu holl ymdrechion ar ymateb i'r argyfwng presennol.

Fy mlaenoriaethau yw lleihau'r achosion o gamfanteisio troseddol ar bobl agored i niwed trwy: -

- Drais yn y cartref
- Cam-drin rhywiol
- Caethwasiaeth fodern
- Troseddau difrifol a chyfundrefnol

a

- Chyflwyno cymdogaethau mwy diogel

Fodd bynnag, mae'r argyfwng a grëwyd gan COVID-19 yn golygu na all busnes barhau fel yr arfer. Er mwyn ymateb i'r argyfwng a chyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, bydd fy ffocws fel CHTh a swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh), felly, ar: -

1. Sicrhau bod gan y prif gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i'r argyfwng
2. Sicrhau, ar ran ein cymunedau, fod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol (gan ddwyn i gyfrif)
3. Hwyluso prosesau gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
4. Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr troseddau, a darparu grantiau at ddibenion plismona a lleihau niwed
5. Sicrhau bod iechyd tymor hir Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei amddiffyn trwy fonitro cynlluniau adfer a gweithgareddau'r sefydliad y tu hwnt i argyfwng COVID-19

Y mater allweddol fu sicrhau bod gan yr heddlu'r adnoddau i ymateb. Er enghraifft, mae'r holl hyfforddiant nad yw'n hanfodol wedi'i ganslo ac mae cwnstabliaid arbennig wedi'u defnyddio i gynyddu'r adnoddau dynol sydd ar gael.

Er mwyn sicrhau diogelwch, mae staff yn gweithio o gartref lle bynnag y bo modd.

Mae COVID-19 yn cael effaith gyllidebol ac mae'n siŵr y bydd gorwariant ar gyllideb 2020/21. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny, mae cyllid Heddlu Gogledd Cymru yn iach.

Mae'r heddlu wedi parhau i allu plismona'n rhagweithiol ac mae wedi ymateb i her pandemig COVID-19 yn effeithiol.

<u>Cafwyd cyflwyniad byr gan y prif gwnstabl, Carl Foulkes:</u>

Mae argyfwng COVID-19 wedi rhoi cyfle i gyflymu'r broses o fabwysiadu technoleg ddigidol gan Heddlu Gogledd Cymru. Cyflwynwyd mwy o ddyfeisiau a gliniaduron 'dau mewn un' ynghyd â chorff-gamerâu.

Sefydlwyd tîm llesiant i gefnogi gweithio o gartref.

Mae gwaith yn parhau ar flaenoriaethau'r CHTh, gyda gweithrediadau i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol (llinellau sirol a mathau eraill o roi cyffuriau) yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â heddluoedd eraill (Glannau Mersi yn ddiweddar) a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

Mae COVID-19 wedi arwain at lai o alwadau i'r ganolfan alwadau am droseddau corfforol, ond mae galwadau sy'n ceisio gwybodaeth a sicrwydd ynghylch y pandemig wedi codi’n ddychrynllyd.

Talwyd teyrnged i'r gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru trwy gydol yr argyfwng, gyda pherthnasoedd agos yn cael eu meithrin gyda swyddogion LlC (Reg Kilpatrick sy'n goruchwylio ymateb brys a Karin Philips ym maes diogelwch cymunedol).

Mae'r heddlu wedi canolbwyntio ar yr ymddygiad mwyaf anarferol ar y ffyrdd. Cwblhawyd 10,000 i 15,000 o wiriadau cerbydau a chyflwynwyd 580 o hysbysiadau tâl cosb. Mae nifer gyffredinol yr hysbysiadau tâl cosb wedi gostwng oherwydd y cyfyngiadau symud O'r hysbysiadau tâl cosb a gyfwynwyd, roedd 70 y cant i bobl o'r tu allan i'r rhanbarth, y drydedd gyfradd allanol uchaf yn y DU.

Mae cwnstabliaid arbennig wedi cael eu defnyddio fel swyddogion amser llawn lle maen nhw wedi bod ar ffyrlo ac ar gael. Mae hyn wedi helpu i blismona ardaloedd gwledig, adrodd am droseddau ac ymateb i COVID-19.

Mae bregusrwydd yn debygol o fod yn broblem allweddol wrth i ni lacio’r cyfyngiadau symud, gan y bydd dioddefwyr trais yn y cartref a throseddau “bregusrwydd” eraill yn gallu adrodd am eu sefyllfa mewn ffordd nad oedd modd iddynt ei wneud yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae'r heddlu'n paratoi i blismona ailagor yr economi ymwelwyr gan gynnwys bariau a bwytai. Mae'r heddlu'n paratoi ar gyfer y risg o dorfeydd mawr posibl yn ymgynnull ar draethau.

Gall yr heddlu recriwtio 78 o heddweision y flwyddyn nesaf ond efallai y bydd problemau o ran y gallu i’w hariannu. Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau symud yn cael effeithiau dwys ar yr economi, er enghraifft, Airbus.

Mae newid mawr wedi bod mewn troseddau, gyda lefel uwch o aflonyddu a stelcio ar-lein ynghyd â seiberdroseddu twyllodrus. Bydd HGC yn newid ei fodel gweithredu i ymateb i'r newid mewn troseddu. Bydd hyn yn cynnwys peidio â dod â'r holl staff yn ôl i'r swyddfa ar ôl COVID.

Bydd angen i'r heddlu hefyd ystyried materion fel Mae Bywydau Du o Bwys sy'n codi'r cwestiwn o sut i blismona protestiadau cyhoeddus.

Bydd yr haf yn brysur iawn wrth i ogledd Cymru lacio’r cyfyngiadau symud.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ceisio sicrhau mai gogledd Cymru yw’r lle mwyaf diogel yn y DU a bod yn: -

- Heddlu sy’n plismona trwy gydsyniad
- Cynrychioliadol o’r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu

**<u>Cwestiynau a thrafodaeth</u>**

Gofynnodd Darren Millar am blismona a fydd yn rhoi sicrwydd i'r gymuned leol wrth i ymwelwyr ddychwelyd i'r 50,000 o leoedd gwely yn Nhywyn a Bae Cimnel, o'i gymharu â phoblogaeth leol o 8,000, gyda rhai pryderon ynghylch ymwelwyr yn dychwelyd. Mae'r her hon yn cyfiawnhau defnyddio adnoddau ychwanegol, yn enwedig gan fod poblogaethau oedrannus a difreintiedig ym Mhensarn ac ardaloedd cyfagos.

Ymatebodd y prif gwnstabl yn gadarnhaol. Bydd ef yn: -

- Defnyddio'r heddlu i roi sicrwydd i gymunedau. Mae'n gweld tensiynau tebyg mewn rhannau eraill o ogledd Cymru fel Ynys Môn a Gwynedd.
- Blaenoriaethu atal torfeydd o bobl ifanc heb eu rheoli yn ymgynnull (ar y traeth).

Mae ymwelwyr teulu arferol sy'n eistedd mewn gerddi cwrw yn debygol o fod yn gymharol hawdd i'w plismona. Mae Heddlu Dorset yn dysgu o reoli cynulliadau ar draethau a fydd yn ddefnyddiol yng ngogledd Cymru.

Gofynnodd Rob Roberts AS: -

- A yw Heddlu Gogledd Cymru yn profi unrhyw heriau yn sgil y ffaith nad yw plismona wedi'i ddatganoli?
- A oes gan HGC unrhyw "ofynion" gan ASau yng ngogledd Cymru?
- Beth ddigwyddodd yng nghydweithrediad yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ddoe?

Ymatebodd y CHTh: -

Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog plismona yn y Swyddfa Gartref (Kit Malthouse AS) a gyda Jane Hutt yng Nghymru (ynghylch partneriaeth a materion diogelwch cymunedol ehangach (mewn cyferbyniad â'r swyddogaethau plismona heb eu datganoli) ac mae perthnasoedd yn dda iawn.

Gofyniad ASau yw helpu i sicrhau setliad cyllido tair blynedd o broses cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd mae'r heddluoedd yn cael eu hariannu gan y Swyddfa Gartref ar gyllideb dreigl, 12 mis.

Adroddodd y prif gwnstabl y byddai'n darparu briff ysgrifenedig i gynrychiolwyr etholedig ar: -

- Y gofynion ariannol gan Kit Malthouse
- Gweithrediad yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

Gofynnodd Mark Tami AS am y trefniadau ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud ynglŷn ag agor llety, bariau a bwytai a chaniatâd i deithio'n ehangach. A fydd yna ddysgu o Loegr ar sut i osgoi torfeydd mawr?

Amlinellodd y prif gwnstabl y dulliau lleol a fydd yn cael eu cymryd a rhoddodd sicrwydd y byddant yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o lacio'r cyfyngiadau symud yn Lloegr ar 4 Gorffennaf.

Gofynnodd Mark Isherwood AS a oedd yr heddlu, oherwydd cyfyngiadau symud COVID-19, yn ymwybodol o'r cynnydd yn y canlynol: -

- Cam-drin yr henoed (awgrymwyd gan grwpiau gwirfoddol i Mark Isherwood)

- Trosedd gwledig
- Caethwasiaeth fodern

Ymatebodd Carl Foulkes a Stephen Hughes: -

- Nad oes cynnydd amlwg mewn achosion o gam-drin yr henoed ar hyn o bryd
- Bu rhai achosion proffil uchel o ddwyn defaid ond nid oedd cynnydd yn y gyfradd troseddau gwledig
- Mae caethwasiaeth fodern yn parhau i fod yn flaenoriaeth fel rhan o'r ymrwymiad i wella diogelwch.

Disgwylir cynnydd yn yr adroddiadau o drais yn y cartref a chaethwasiaeth fodern ar ôl i’r cyfyngiadau symud ddod i ben.

Gofynnodd Aelodau'r Senedd: -

- Y dylai fod yn flaenoriaeth ar ôl COVID i ganfod graddfa cam-drin yr henoed
- Bod Gweinidogion yn sicrhau bod adnoddau ar gael i ymdrin â chynnydd mewn adroddiadau o drais yn y cartref ar ôl i’r cyfyngiadau symud ddod i ben.

## 3. Canlyniadau economaidd COVID-19 yng ngogledd Cymru

Cafwyd cyflwyniad gan Gwenllian Roberts ac Alwen Williams ar weithio rhanbarthol i ganfod effaith COVID-19 ar economi gogledd Cymru: -

- Maent yn cydweithio'n agos ac yn dod ag adnoddau Llywodraeth Gymru a llywodraeth leol ynghyd i gynllunio ymyriadau ar gyfer adfer yr economi yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd trwy waith arolwg, adborth i LlC a monitro gan awdurdodau lleol.

- Mae'r arolwg busnes ar y cyd wedi awgrymu y dylai twristiaeth, gweithgynhyrchu uwch, canol trefi a chaffael cyhoeddus (yr economi gylchol) fod yn ganolbwynt ar gyfer cynllunio adferiad a fframwaith economaidd rhanbarthol LlC.

- Mae cynghorau wedi bod yn effeithiol iawn wrth gyflawni cynlluniau grant LlC.

- Bydd gweithio ar y cyd yn manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd sydd gan y fargen twf.

- Mae'r gwaith ar gynllunio adferiad economaidd rhanbarthol yn adrodd i fwrdd cydlynu adferiad a sefydlwyd o dan y ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posibl a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Rhoddodd Ken Skates AS, y Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, y wybodaeth ddiweddaraf: -

- Roedd economi gogledd Cymru yn gwneud yn dda cyn COVID. Mae'r ardal bellach yn wynebu colli swyddi yn Airbus (1400 a mwy) gyda'r tebygolrwydd y bydd llawer o doriadau bach eraill i gyflogaeth mewn trefi ac ystadau diwydiannol ledled y rhanbarth.

- Mae AETh LlC yn symud o ddull canolog i ddull mwy rhanbarthol sy'n ceisio grymuso'r byrddau economaidd a arweinir gan awdurdodau lleol fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae hyn yn caniatáu i grwpiau o gynghorau a LlC gydweithio’n fwy effeithiol.

- Mae Cymru wedi cael lefelau uwch o ddosbarthiad gan gefnogaeth economaidd COVID-19 i fusnesau Cymru nag a gyflawnwyd mewn rhannau eraill o'r DU.

- Mae LlC yn ceisio cael mwy o gefnogaeth economaidd i fusnesau gan Lywodraeth y DU (er enghraifft, pecyn i’r sector hedfan). Mae perthnasoedd gwaith da wedi’u meithrin gyda’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Swyddfa Cymru.

Amlinellodd y Gweinidog syniadau i “ailgodi’n well” o COVID-19 trwy’r canlynol: -
- Buddsoddiad yn seiliedig ar le.
- Buddsoddi mewn pobl a'u sgiliau, yn enwedig y rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi.
- Adferiad gwyrdd a digidol, sy'n lleihau teithio a defnyddio carbon (canolfannau gweithio o bell a rennir mewn tref fach, teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a thechnoleg newydd ar gyfer cerbydau (hydrogen a thrydan).
- Canolbwyntio ar bobl ifanc. Mae pobl ifanc dan 25 oed yn cyfrannu at 12 y cant, ond bydd effaith fawr ar 25 y cant o weithlu'r sector twristiaeth yn sgil COVID-19. Bydd LlC yn cefnogi pob person ifanc dros 16 oed sydd ei angen.
- Sefydlu’r ganolfan ymchwil technoleg uwch arfaethedig (afioneg ac electroneg uwch) ar safle’r Asiantaeth Electronig a Chydrannau Amddiffyn ar Lannau Dyfrdwy fel rhan o raglen o ganolfannau ymchwil i gefnogi diwydiannau yfory (gan adeiladu ar AMRC 1 yn Airbus a'r cyfleuster niwclear yn M-Sparc).
- Buddsoddi mwy mewn busnesau gwledig (Conwy a Sir Ddinbych).
- Buddsoddi mwy mewn busnesau gwyrdd, er enghraifft, morlynnoedd llanw.
- Manteisio ar agenda lefelu Llywodraeth y DU ar gyfer rheilffyrdd (prif linell gogledd Cymru, caffael HS2 a llinell Wrecsam Bidston fel craidd metro gogledd-ddwyrain Cymru) a’r gorsafoedd newydd (a ailagorwyd) yn Amlwch a Maes-glas/Treffynnon.
- Buddsoddiadau digidol (er enghraifft, er mwyn galluogi 5G).

Mae cyfle i ymateb i'r her fawr a achosir gan effaith COVID-19 ar yr economi trwy anelu at gymdeithas decach, wyrddach a mwy parchus wrth adfer.

<u>Cafwyd cyflwyniad gan Ashley Rogers, cyfarwyddwr masnachol Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy: -</u>

Mae COVID-19 yn cael effaith economaidd enfawr gyda 100,000 o bobl yng ngogledd Cymru ar ffyrlo neu i gefnogaeth i bobl hunangyflogedig. Wrth i ffyrlo ddechrau lleihau, mae'n anochel y bydd swyddi'n cael eu colli.

Y sectorau yr effeithir arnynt waethaf yw: -
- Twristiaeth
- Manwerthu a gweithio mewn swyddfa lle bo hynny'n bosibl i weld dyfodol lle nad yw cyfran sylweddol o bobl yn dychwelyd i weithio mewn swyddfa neu adeiladau manwerthu yng nghanol y dref (cyflogaeth manwerthu a siopa). Bydd hyn yn cael effaith fawr ar eiddo masnachol a rhenti
- Gweithgynhyrchu uwch, fel y dangoswyd gan Airbus.

Mae effaith fawr, hefyd, ar y sector creadigol a digidol, gan gynnwys digwyddiadau (gyda chefnogaeth gan "bobl greadigol"). Mae 14 y cant o ogledd Cymru yn gweithio yn y sector (gan gynnwys digwyddiadau) gyda 40 y cant o'r rheini'n hunangyflogedig fel "gweithwyr llawrydd".

Mae gwasanaethau logisteg a gwasanaethau proffesiynol wedi gwneud yn well.

Mae angen i'r ymatebion fod yn seiliedig ar ddadansoddiad sectoraidd. Mae enghreifftiau o ymyriadau yn cynnwys: -

- Marchnata twristiaeth ddiogel yng ngogledd Cymru
- Ymgyrchoedd prynu'n lleol
- Defnyddio adeiladau manwerthu canol trefi at ddibenion preswyl neu swyddfeydd (os bydd galw'r sector preifat am swyddfeydd yn codi).

Mae'r gronfa tanio wedi'i thargedu at fusnesau bach a chanolig a gweithwyr llawrydd.

Bydd yn cymryd amser hir i adfer o effaith economaidd COVID-19.

**<u>Trafodaeth</u>**

Adroddodd Mark Tami AS fod angen cefnogaeth sector-benodol ar gyfer diwydiant hedfan y DU (gan gynnwys cwmnïau hedfan, meysydd awyr, darparwyr cynnal a chadw a gweithgynhyrchwyr fel Airbus). Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol o blaid pecyn o'r fath fel y'i gweithredwyd gan Lywodraethau Ffrainc a'r Almaen ond nid yw'r Trysorlys yn gefnogol eto. Dylai cynrychiolwyr etholedig yng ngogledd Cymru weithio gyda'i gilydd i geisio newid meddwl y Trysorlys.

Mae'r cynllun cadw swyddi (ffyrlo) yn dda i fentrau sy'n gallu masnachu yn lled-normal o fis Medi ymlaen yn unig. Awgrymodd gefnogaeth i sawl pecyn sectoraidd, er enghraifft, hedfan a thwristiaeth.

Amlygodd Darren Millar AS y risg y bydd llawer o swyddi llai yn cael eu colli yn y farchnad gymharol fach a threfi glan môr yng ngogledd Cymru, a fydd yn cael effaith gynyddol fawr ac yn ychwanegu at boen niferoedd mawr a gollir gan y cyflogwyr mwy.

Mae angen y sector hedfan ar y wlad er gwaethaf newid yn yr hinsawdd.

I'r economi ymwelwyr, sy'n cynnwys y sector lletygarwch, byddai gallu gweithredu ar bellter cymdeithasol o 1m gyda mesurau lliniaru yn gwneud gwahaniaeth enfawr i hyfywedd masnachol.

Adroddodd Rob Roberts AS fod Airbus yn cynnal cyfarfodydd gyda Gweinidogion gan gynnwys y Trysorlys o fewn yr wythnos. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn gefnogol i gynnig sector gydag Airbus gan gynnwys wythnos pedwar diwrnod a chymhorthdal cyflog i alluogi gweithwyr i wella eu sgiliau. Bydd yn rhatach cefnogi'r sector na rhoi llawer o weithwyr ar fudd-daliadau.

Ymatebodd y Gweinidog: -

- Mae Airbus yn gweithio ar “adenydd y dyfodol” a thechnoleg injan hybrid i leihau allyriadau carbon. Byddai cefnogi hyn a chynllun sgrapio aer fel cydrannau o gynllun i’r sector hedfan yn cefnogi cynhyrchiant, swyddi ac allyriadau carbon.

- Mae LlC yn cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ynghylch pellter cymdeithasol o 1m (gyda mesurau lliniaru) yn hytrach 2m ym maes lletygarwch a thrafnidiaeth. Yn y ddau achos, hoffai'r llywodraeth symud i 1m gyda mesurau lliniaru i roi hwb i’r gallu i weithredu a refeniw.

Cafwyd trafodaeth ar gyflwyno lleoedd gwaith a rennir ar gyfer gweithio o bell yng nghanol trefi. Roedd y Gweinidog o blaid gwasgaru swyddi mewn swyddfeydd yn y sector cyhoeddus i drefi llai trwy ganolfannau gweithio o bell o'r fath. Mae menter sgwariau tref LlC (a gychwynnwyd yn Wrecsam) yn ceisio dangos y ffordd.

Adroddodd y Cynghorydd Sam Rowlands y bydd y CLILC yn cyflwyno rhestr o gynlluniau “sy’n barod” a allai gynorthwyo pecyn ysgogi cyllidol yng Nghymru. Gofynnodd hefyd am y cynnydd o ran ariannu gwaith ar forlynnoedd llanw yng Nghymru.

Canmolodd y Gweinidog y gwaith o gyflwyno cynlluniau ar gyfer buddsoddi, a chyfeiriodd at lwyddiant menter benthyca awdurdodau lleol (ar gyfer priffyrdd) fel esiampl lwyddiannus. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Gronfa Her Ynni Llanw lle gall datblygwyr morlynnoedd llanw wneud cais am arian i ddatblygu eu hachosion busnes a chaniatáu cynigydd a ffefrir i bob cynllun ddod i'r amlwg. Rhaid i'r gronfa fod yn gyson ag amcanion Llywodraeth y DU cyn y gellir ei lansio.

## 4. Adnewyddu twristiaeth yng ngogledd Cymru

Cyflwynodd Michael Bewick, rheolwr gyfarwyddwr Llechwedd yr eitem. Mae busnes Llechwedd yn seiliedig ar ddau geudwll llechi, gwesty, safle glampio, canolfan feicio, gwifrau sip ac ogofâu “sioe”. Mae’r busnes yn derbyn mwy na 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac fe'i cynrychiolir ar Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y Gogledd ac ar lefel genedlaethol ar grŵp diwydiant a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau deialog a chyngor ar reoleiddio'r economi ymwelwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19.

Roedd naws cyfarfod diwethaf cynrychiolwyr y diwydiant gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog (twristiaeth) yn llawn tensiwn. Mae cau busnesau yn ystod y cyfyngiadau symud a llacio’r cyfyngiadau symud yng Nghymru sawl wythnos ar ôl i genhedloedd eraill y DU (yn enwedig Lloegr) yn golygu bod llawer o fusnesau twristiaeth yn ofni am oroesi yn y tymor hwy gan y bydd y tymor hwn yn fyr iawn ac efallai na fydd yn cynhyrchu digon o refeniw i gynnal busnesau hyd at y gwanwyn nesaf (2021). Mae'r sefyllfa bresennol o ran cymorth ariannol i dwristiaeth gan Lywodraeth y DU yn seiliedig ar benderfyniadau a wnaed ar gyfer Lloegr sydd wedi darparu ar gyfer mis ychwanegol i dymor eleni. Nid yw hyn yn argoeli'n dda i fusnesau Cymru.

Mae twristiaeth yn hanfodol i economi gogledd Cymru gyda 12 y cant o fusnesau yng ngogledd Cymru yn y sector twristiaeth. Gwynedd sydd â'r crynodiad uchaf o fusnesau twristiaeth yn y rhanbarth, sef 15 y cant o gyfanswm nifer y busnesau yn y sir.

Amcangyfrifir bod gwariant twristiaeth yng ngogledd Cymru yn £823m ar gyfer ymwelwyr dydd a £700m ar gyfer ymwelwyr dros nos (£1,523bn gyda'i gilydd). Mae 30,000 a mwy o swyddi yn sector twristiaeth y rhanbarth, sy'n cyfateb i 11 y cant o gyfanswm y gweithlu. Yn anffodus, gallai 10,000 o'r rhain gael eu diswyddo (neu heb eu recriwtio ar gyfer y tymor hwn) oherwydd cyfyngiadau symud COVID-19 a rheolaethau diogelwch ar ailagor y sector.

Nid yw cymunedau gogledd-orllewin Cymru, gan eu bod yn gymharol ynysig, gyda phoblogaethau tenau a gwledig, wedi gweld yr un faint o achosion o COVID-19 a oedd mewn rhai ardaloedd trefol. Maent felly yn ddealladwy bryderus ynghylch ymwelwyr yn dychwelyd. Mae'r agwedd hon wedi'i gwreiddio'n rhannol yn y ffaith nad yw'r gwerth a chyfraniad y diwydiant twristiaeth at yr economi wedi'u cyfleu yn y gorffennol.

Mae Llechwedd wedi gwahodd cymunedau lleol i Llechwedd i ddangos diogelwch y gweithlu.

Oherwydd pa mor fyr yw'r tymor ni fydd llawer o fusnesau yn ailagor.

Bydd diwydiant twristiaeth Cymru yn cael ei daro'n galetach na rhannau eraill o'r DU oherwydd ailagor yn ddiweddarach a chefnogaeth, fel ffyrlo, wedi'i hanelu at ddiwydiant ehangach y DU.

Dylid cefnogi gwaith i ymestyn y tymor trwy lacio cyfyngiadau cynllunio ar safleoedd gwersylla a charafanau.

Cafwyd llawer o gymorth ariannol trwy fenthyciadau, ac ni fydd rhai busnesau yn gallu ysgwyddo'r ddyled na'i had-dalu yn y dyfodol. Mae rhai wedi cau yn hytrach na mynd i ddyled.

Bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar y sector yng Nghymru trwy aeaf 2020/21 i gadw busnesau'n hyfyw ar gyfer y gwanwyn nesaf ac i arbed swyddi mewn cymunedau lleol.

Ar hyn o bryd, bydd y sector yn gwerthu diwrnodau allan da a phrydau bwyd cain cyhyd ag y gallant.

Rhoddodd Jane Richardson gyflwyniad yn canolbwyntio ar faterion adfer yn y tymor hwy a thwf yn y dyfodol.

Mae Croeso Cymru yn gwneud gwaith gwych i geisio sicrhau bod sector twristiaeth Cymru yn goroesi drwy argyfwng COVID-19. Bydd swyddi'n cael eu colli oherwydd COVID-19, a bydd hyn yn gofyn am gynllunio'n dda ar gyfer y dyfodol i adfer yr hyn a gollir.

Roedd sector twristiaeth gogledd Cymru yn wynebu heriau cyn COVID-19: -

- Prinder sgiliau
- Rhai cymunedau lleol (mewn ardaloedd arbennig o boblogaidd) yn teimlo eu bod wedi eu gorlethu gan nifer yr ymwelwyr, gan ddangos dosbarthiad anwastad o ran twf a nifer yr ymwelwyr.

Mae cyfle, ar ôl COVID-19, i ailosod y cynnig gan sector twristiaeth gogledd Cymru mewn ffordd a fydd yn adennill hyder cymunedau, yn codi lefelau sgiliau ac yn cynhyrchu gwerth uwch.

Y themâu allweddol yw addasu, arloesi a gweithio'n unol ag egwyddor cynaliadwyedd, gan gynnwys y syniad o economi gylchol lle cedwir mwy o arian yng ngogledd Cymru yng ngogledd Cymru. Gallai technoleg newydd wella marchnata, cynhyrchiant a chynigion cynnyrch.

Gellid ategu harddwch naturiol gogledd Cymru trwy wneud gogledd Cymru y gyrchfan wyliau wyrddaf trwy fynediad a symudedd yn y rhanbarth. Gellid gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn ddull teithio diofyn yn yr ardaloedd sy'n cael nifer fawr o ymwelwyr gyda hybiau rheilffordd yn gwasanaethu llwybrau bysiau i atyniadau. Mae cysyniad metro gogledd Cymru yn cefnogi'r dyhead hwn.

Dylai diwylliant, iaith a hanes lleol hefyd fod yn nodweddion unigryw o gynnig gogledd Cymru.

Mae ymwelwyr sy'n aros dros nos yn gwario llawer mwy o arian ac yn fwy tebygol o gyffroi'r cymunedau croesawu twristiaid gydag ymwelwyr o bob rhan o'r DU ac yn wir o'r byd!

Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi comisiynu ymchwil gan Brifysgol Bangor i ystyried: -

- Cryfderau a gwendidau'r diwydiant yng ngogledd Cymru cyn COVID-19
- Effaith COVID -19
- Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant ôl-COVID
- Prosiectau a allai alluogi'r diwydiant i symud ymlaen at fodel "gwyrdd" cynaliadwy newydd gyda chefnogaeth cymunedau yn unol â'r weledigaeth newydd arfaethedig.

Bydd y gwaith yn cynnwys gwaith grŵp ffocws gyda thrigolion yn APC Eryri.

Gallai argymhellion yr ymchwil ddenu cyllid gan y fargen twf sy'n cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer twristiaeth. Yn realistig, mae angen i hyn gael ei ategu gan gyllid refeniw i alluogi prosiectau i fynd ymlaen, er enghraifft, gwasanaethau trafnidiaeth werdd.

Dyma ofynion Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y Gogledd ar gyfer cefnogaeth drawsbleidiol: -

- Pecyn cymorth economaidd sector-benodol ar gyfer twristiaeth trwy'r gaeaf ar lefelau'r DU a LlC
- Cefnogaeth i ymestyn y tymor trwy leddfu cyfyngiadau cynllunio a thrwyddedu ar amseroedd agor parciau gwyliau, safleoedd gwersylla a charafanau
- Cefnogi hyblygrwydd ar gyfer prosiectau twristiaeth o fewn bargen twf gogledd Cymru
- Peth cyllid refeniw i ddatblygu prosiectau o'r gwaith ymchwil ym maes twristiaeth a'r weledigaeth neu dwristiaeth werdd/gynaliadwy

**<u>Trafodaeth</u>**

Cefnogodd Rhun ap Iorwerth AS y syniad arfaethedig o ail-ddyfeisio twristiaeth yng ngogledd Cymru i wella ei pherthynas â'r gymuned a'r gwerth y mae'n ei gyflawni. Dylai fod mwy o berchnogaeth leol ar gwmnïau twristiaeth ynghyd â'r cynnig, y gwerth a'r buddion.

Mae llawer o bobl leol yn teimlo eu bod wedi colli rheolaeth ar ble maen nhw'n byw ac yn elyniaethus i fewnfudwyr o ganlyniad. Mae ail gartrefi yn enghraifft o hyn, lle maen nhw'n prisio pobl leol allan o'r farchnad. Byddai'n dda pe gallai cymunedau gymryd rheolaeth unwaith eto dros y marchnadoedd tai lleol.

Mae strategaeth i ailosod y diwydiant yn gyfle i weld twristiaeth yn dod yn rym er daioni.

Sylwodd Mark Isherwood AS fod llawer o berchnogion busnesau twristiaeth wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru ond nad ydyn nhw bob amser yn byw yn lleol i'w busnes.

Adroddodd Darren Miller AS fod cefnogaeth i'r sector twristiaeth yn hanfodol er mwyn ei diogelu trwy argyfwng COVID-19. Yn ei etholaeth mae llai o bryder ynghylch mewnfudwyr. Y pryder yn lleol yw bod rhai lleoedd yn y rhanbarth yn mynegi barn wrth-Seisnig yn gyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol a fydd yn niweidio'r sector twristiaeth cyfan yn y rhanbarth.

Mae gan wyliau glan môr traddodiadol, “bwced a rhaw, cusanwch fi’n gyflym” ran i’w chwarae o hyd a dylent fod yn rhan o ddyfodol y diwydiant yng ngogledd Cymru.

Cefnogodd y syniad o ymwelwyr gwerth uwch, sy'n aros yn hirach.

Ymatebodd Rhun ap Iorwerth AS bod yn rhaid cydnabod bod rhai lleoedd yng ngogledd Cymru yn profi “gor-dwristiaeth” ynghyd â rhannau o Sir Benfro a Cheredigion. Mae hyn yn creu pryderon cymunedol go iawn y mae angen eu hystyried.

Mae angen dull cadarnhaol o ymdrin â thensiynau rhwng cymunedau ac ymwelwyr er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn goroesi yn y tymor hwy.

Roedd barn gyffredinol mai'r peth gorau yw edrych tua’r dyfodol.

Adroddodd Jason Thomas ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i annog cydweithio rhwng y diwydiant, cynghorau a Croeso Cymru i wneud twristiaeth yn well i bawb yng Nghymru.

Cyhoeddwyd y cynllun newydd ar gyfer yr economi ymwelwyr ym mis Ionawr 2020. Mae'n ceisio alinio buddiannau ymwelwyr a chymunedau lleol. Bydd angen diwygio'r cynllun ar ôl COVID, ond bydd yr egwyddor o ymgysylltu â'r gymuned yn parhau i fod yn egwyddor sylfaenol.

Cyn bo hir bydd Cymru yn newid neges Croeso Cymru i ymweld “yn ddiweddarach” i ymweld â Chymru yn “ddiogel”. Bydd canllaw yn cyd-fynd ag ailagor yr economi ymwelwyr yn ofalus yn ogystal â’r safon “barod i fynd” a ddatblygwyd gan y diwydiant gyda chyngor gan arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd.

Bydd addewid ymwelwyr i arwain ymwelwyr sy'n dod i Gymru.

Croesawyd yr addewid ymwelwyr gan y cyfarfod.

Gofynnodd Darren Millar AS am fwy o eglurder ynghylch ailagor ffeiriau hwyl, parciau thema ac arcedau diddanu; gall atyniadau awyr agored (gan gynnwys parciau thema) agor ond ni all ffeiriau hwyl, pam hynny?

Rhoddodd Jason Thomas sicrwydd y bydd rheoliadau LlC yn rhoi eglurder.

## 5. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fusnes arall.